Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Carreg Hirfaen
# Cwmann
# Llanbedr Pont Steffan
# Sir Gaerfyrddin
# SA48 8EP

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2015**

## Cyd-destun

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen sydd wedi ei lleoli ym mhentref Cwmann ar gyrion tref Llanbedr Pont Steffan. Ffurfiwyd yr ysgol yn Ionawr 2009 yn dilyn cau ysgolion cyfagos ac, o'r herwydd, mae'n gwasanaethu ardal eang. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Caerfyrddin.

Mae 116 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 14 o blant meithrin gyda rhai ohonynt yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y trydydd tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Addysgir y disgyblion mewn pum dosbarth gyda disgyblion o oed cymysg mewn tri ohonynt.

Daw tua 78% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Gwelwyd newid sylweddol yn ddiweddar gyda llai na hanner y disgyblion o fewn Y Cyfnod Sylfaen bellach o gartrefi Cymraeg. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Daw 3% o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Mae niferoedd y disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o 5% hyd at tua 11% eleni. Mae'r ffigwr hwn yn parhau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (21%). Mae gan 24% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Hydref 2009.

Penodwyd y pennaeth yn Ebrill 2000 ac mae ar hyn o bryd yn gyfrifol am reoli Ysgol Gynradd Llansawel hefyd.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Carreg Hirfaen yn 2014-2015 yw £3,525. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Carreg Hirfaen yn safle 73 o'r 95 ysgol gynradd yng Nghaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Bod gan bron pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi
- Bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ar draws meysydd dysgu
- Bod yr athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol
- Bod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar ble mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn gyda ffocws pendant ar godi safonau a gwelliant parhaus
- Bod yr holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm
- Bod cyswllt amlwg rhwng y broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol
- Bod tystiolaeth o gynllunio a gweithredu gwelliannau'n llwyddiannus
- Bod defnydd effeithiol o bartneriaethau strategol er budd addysg y disgyblion

## Argymhellion

A1 Lleihau'r bwlch rhwng cyflawniad bechgyn a merched

A2 Sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer ysgrifennu estynedig

A3 Datblygu rôl weithredol y llywodraethwyr yn y prosesau hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ar fynediad i'r ysgol. Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol.

Mae bron pob un yn y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud yn ystod sesiynau torfol, ac yn siarad yn eglur. Maent yn mynegi eu syniadau'n hyderus gan ynganu a goslefu'n ddealladwy, gydag amrediad eang o eirfa a mesur da o gywirdeb. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus am eu gwaith. Mae bron y cyfan o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud ac yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynau yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill yn synhwyrol, yn y ddwy iaith. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol, ac yn dangos gafael dda ar gystrawen naturiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon. Maent yn trafod cynnwys eu hoff lyfrau yn effeithiol gan fynegi barn am yr awduron. Gwna lawer o'r disgyblion ddefnydd addas o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac o wefannau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm a gallant ddewis a dethol rhannau penodol o lyfrau ac oddi ar y rhyngrwyd at eu defnydd o fewn eu gwaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio medrau darllen uwch yn effeithiol, fel brasddarllen testun i gael gwybodaeth.

Mae gwaith ysgrifennu bron bob disgybl yn dangos cynnydd da erbyn diwedd Y Cyfnod Sylfaen. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig ac annibynnol gan amrywio eu brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n glir wrth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol mewn amrywiaeth o destunau yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio cystrawennau brawddeg cywir, yn paragraffu mewn dilyniant i gyfleu ystyr ac yn cynnal a datblygu syniadau. Fodd bynnag, anghyson yw'r dystiolaeth o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ymestynnol yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen afael sicr ar ffeithiau rhif yn unol â'u hoed a'u gallu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i ddatrys problemau, er enghraifft wrth gymharu maint gwahanol esgidiau yn y dosbarth. Ar draws yr ystod gallu, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r termau mathemategol cywir wrth drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru casglu a chynrychioli data mewn tasgau rhif ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio eu medrau yn llwyddiannus i ddatrys problemau go iawn ac o fewn meysydd fel hanes, daearyddiaeth a gwyddoniaeth. Gwelwyd hyn ar ei orau mewn gwaith ar y gwersyll haf a chynllun adeiladu car rasio.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal. Mae niferoedd bychan o blant ambell flwyddyn ac anghysondeb yn y niferoedd hyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall. Hefyd, mae'r ysgol wedi newid grŵp meincnodi gyda chynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sydd â hawl i brydau di-dâl yn ddiweddar. Ran amlaf, mae llai na chyfwerth ag un disgybl rhwng gosod yr ysgol o fewn y 25% uchaf o ysgolion, a'r 25% isaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2014, roedd perfformiad disgyblion o ran cyrraedd y deilliant a ddisgwylir (deilliant 5) mewn medrau llythrennedd yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mewn medrau mathemategol yn y 25% isaf. Anghyson yw'r patrwm ym mherfformiad disgyblion dros y tair blynedd diwethaf, sy'n cyd-fynd ag anghysondeb sylweddol ym maint y nifer o ddisgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen bob blwyddyn. Mae perfformiad disgyblion yn 2014 mewn medrau mathemategol ar y deilliant uwch (deilliant 6) wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf, ac yn y 50% is mewn llythrennedd. Gwelir patrwm o gynnydd dros dair blynedd er mai anghyson yw'r perfformiad.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2014, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg a mathemateg yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. O ran y Gymraeg, roedd yn y 50% isaf ac yn y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth.

Serch hynny, tros gyfnod o bedair blynedd, mae'r darlun mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg yn anghyson yn y ddwy iaith a mathemateg a chyda gostyngiad amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r perfformiad wedi bod yn sylweddol uwch gyda'r ysgol yn y 25% uchaf mewn tair allan o'r pedair blynedd diwethaf mewn gwyddoniaeth.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) yn 2014 yn y 25% uchaf ym mhob pwnc. Dros gyfnod o bedair blynedd, gwelwyd yr ysgol yn y 25% uchaf mewn gwyddoniaeth a mathemateg mewn tair o'r pedair blynedd ac mewn dwy ohonynt mewn Saesneg. Bu'r ysgol yn y 25% uwch yn y Gymraeg am ddwy flynedd gyda gostyngiad yn 2013 i'r 25% isaf.

Nid oedd yna'r un disgybl yn gymwys i brydau ysgol am ddim yng ngharfan y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2 yn 2014. Dros y 4 blynedd flaenorol, mae cyflawniad disgyblion sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi bod yn gyson well o gymharu â'u cyfoedion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae yna wahaniaeth arwyddocaol mewn perfformiad bechgyn o gymharu â'r merched dros gyfnod o amser, yn arbennig o fewn llythrennedd. Mae llai o fwlch yn amlwg o fewn gwaith y disgyblion eleni yn dilyn ymyrraeth, ond mae hyn eto i'w adlewyrchu o fewn data perfformiad diwedd cyfnod.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o'r angen i yfed dŵr. Maent yn ymwybodol o'r angen i ymarfer y corff ac maent yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau cadw'n heini a chystadlaethau mewn ystod eang iawn o gemau.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a dangosant barch a gofal at ei gilydd ac oedolion. Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn hapus i droi at unrhyw aelod o staff am gymorth pan fo angen. Maent yn ymwybodol iawn o faterion lles, iechyd a diogelwch.

Yn 2014, mae presenoldeb yn 96.4%, sy'n gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Dyma'r patrwm dros gyfnod o dair blynedd. Daw bron y cyfan o'r disgyblion i'r ysgol yn brydlon.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n mwynhau eu profiadau yn yr ysgol. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cychwyn gwneud penderfyniadau am gynnwys eu gwaith ac yn cyfrannu at osod meini prawf llwyddiant. Mae bron oll o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gallu gwerthuso gwaith eu hunain a chyfoedion yn aeddfed. Maent hefyd yn fodlon derbyn cyfrifoldeb am redeg y siop ffrwythau yn annibynnol.

Mae llawer o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud penderfyniadau sy'n cyfrannu at les y disgyblion trwy drafod amodau o fewn dosbarthiadau a lefelau sŵn tra bod disgyblion ar dasgau. Mae'r aelodau yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau masnach deg a gwahodd aelodau o'r gymuned er mwyn codi arian at elusennau penodol. Maent hefyd wedi cyfannu at drafodaethau yn ymwneud â chynllunio'r ysgol newydd.

Mae'r disgyblion yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y gymdeithas leol, er enghraifft mewn eisteddfodau ac mewn gwasanaethau o fewn addoldai lleol. Maent yn elwa o'r cyfleoedd hyn ac, o ganlyniad, yn meithrin hyder ac ymdeimlad o fod yn rhan o'r gymuned maent yn byw ynddi.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, Y Cyfnod Sylfaen, a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn llawn. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol y disgyblion ac yn sicrhau datblygiad a chynnydd. Mae'r cynllunio yn nodi'n glir y cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn y cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r holl athrawon yn cydgynllunio ac yn dechrau rhannu arfer orau ar draws dosbarthiadau'r ysgol.

Mae darpariaeth yr iaith Gymraeg a'r cyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddatblygu medrau llafar a darllen Cymraeg yn elfen gref drwy'r ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wella safonau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth leol a chenedlaethol yn effeithiol.

Mae'r ymweliadau addysgol a'r amrywiaeth eang o brofiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau disgyblion, er enghraifft drwy'r prosiect i greu cerbyd rasio.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy drwy weithgareddau ymarferol sy'n cynnwys ailgylchu a mesur defnydd o ynni. Mae'r cyngor eco yn weithredol, ac yn rhoi arweiniad priodol i'r ysgol, sy'n cyfrannu'n bositif at brofiadau disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn briodol ac mae'r disgyblion yn ymwybodol o wledydd tramor. Mae gweithgareddau fel pythefnos masnach deg yn cyfoethogi'r ddarpariaeth hyn.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol ac yn sicrhau perthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion. Bron ymhob gwers ble gwelwyd y dysgu ar ei orau, roedd y disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn deall yr hyn oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ganmoliaeth ac maent yn cefnogi'r disgyblion yn briodol i gyflawni eu tasgau. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel a chaiff amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant eu defnyddio'n gyson. Mae'r ystod o ddulliau ac adnoddau a ddefnyddir yn effeithiol er mwyn symbylu a herio'r disgyblion i wneud eu gorau. Mewn ychydig o achosion, addaswyd cynllun gwers i ddilyn cyfraniad a mewnbwn y disgyblion.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle nad oedd yr addysgu cystal, nid oedd y gweithgareddau yn ddigon penodol er mwyn ymateb i amcanion y wers.

Mae gan yr ysgol strategaethau asesu ar gyfer dysgu priodol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n gadarnhaol ac mae cysondeb mewn dulliau marcio drwy'r ysgol. Mae athrawon yn cynorthwyo'r disgyblion i bennu targedau yn y Cyfnod Sylfaen ac mae disgyblion yn pennu targedau eu hunain yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau gwelliant. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn canolbwyntio ar eu gwaith ac yn ymwybodol o sut i'w wella. Mae'r athrawon yn rhoi adborth da a chyfleoedd i ddisgyblion adolygu eu cynnydd yn ystod gwersi.

Mae gan yr ysgol drefniadau asesu cynhwysfawr ac effeithiol. Mae ystod o gofnodion da o gynnydd disgyblion unigol a hefyd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r canlyniadau i drefnu llwybrau gwelliant ar gyfer disgyblion sydd yn cyfrannu at wella deilliannau.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth gwerthfawr am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach. Trwy ystod eang o weithgareddau corfforol ac mewn clybiau ar ôl yr ysgol, caiff disgyblion amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu eu lefelau iechyd a ffitrwydd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer sicrhau diogelwch y disgyblion. Mae trefn effeithiol i hybu hunanddisgyblaeth, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion. Mae'r ysgol, mewn cydweithrediad â rhieni, wedi sicrhau gweithdrefnau effeithiol sydd wedi llwyddo i wella lefel presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda trwy ddarparu profiadau addas fel codi arian i elusennau ac annog disgyblion i fynegi teimladau a gofalu am ei gilydd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i gynnig arweiniad a gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni yn ôl yr angen. Mae'r cymorth a dderbynnir yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau a lles disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau a phrofion i ddarparu ystod addas o raglenni cymorth. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cynhwysol gan yr ysgol a theimla pob disgybl ei fod yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle cynigir mynediad cyfartal at addysg i bob disgybl. Mae gan yr ysgol bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sydd yn sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Caiff parch at amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol eu hyrwyddo'n llwyddiannus trwy weithgareddau perthnasol yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang ac o fewn cyfnodau addoli dyddiol.

Er bod adeilad yr ysgol yn hen, ac nad oes neuadd bwrpasol ar gael, mae'r ysgol yn gwneud y gorau o'r hyn sydd ganddi ac yn cynnig darpariaeth oddi ar y safle er mwyn sicrhau addysg gyflawn. Er y cyfyngiadau hyn, mae'r ysgol a'r cabanau wedi eu haddurno a'i haddasu i fod yn ddeniadol ac yn briodol ar gyfer y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd mewnol yn creu awyrgylch lliwgar, symbylus ac amrywiol sy'n meithrin balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer diwallu anghenion y disgyblion ac mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol ohonynt. Mae'r defnydd o'r adnoddau allanol yn cynnig ystod eang o brofiadau cyfoethog i'r disgyblion. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'n dechrau dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac mae ganddo rôl allweddol mewn hybu cydweithio a rhannu arfer dda. Mae'r rhain yn nodweddion cadarnhaol sy'n cael effaith arwyddocaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar godi safonau gwaith disgyblion.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n frwdfrydig. Maent yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. O dan arweiniad y pennaeth, maent yn barod iawn i rannu arbenigeddau ymysg ei gilydd. Mae hyn yn hyrwyddo arferion addysgu a dysgu da yn effeithiol.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r trefniant is-bwyllgorau sydd wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar, wedi'u galluogi i ddod i farn gadarn am safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. Er hynny, nid yw eu rôl strategol wedi ei datblygu'n llawn er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses o lunio'r adroddiad hunanarfarnu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft y defnydd o'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer cynllunio'r medrau ar draws y cwricwlwm.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu yn drylwyr ac yn defnyddio gwybodaeth o amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad disgyblion, arfarniadau monitro trylwyr o safonau ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu, barn y rhieni a rhanddeiliaid eraill ac adolygiadau tymhorol gan asiantaethau allanol. Mae'r dystiolaeth hon yn rhoi darlun cywir o gryfderau'r ysgol yn ogystal â meysydd i'w gwella. Er hynny, nid yw nid yw'r adroddiad ysgrifenedig yn ddigon arfarnol a dadansoddol bob amser.

Mae gallu diweddar y corff llywodraethol i herio data perfformiad yr ysgol yn sicrhau bod gan yr holl arweinwyr ymwybyddiaeth drylwyr o gryfderau ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae perthynas glir rhwng blaenoriaethau'r cynllun datblygu cyfredol a'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu seilio'n briodol ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r wybodaeth a ddaeth i'r amlwg drwy'r broses hunanarfarnu.

Mae'r cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd. Mae cyflawniad rhai o flaenoriaethau'r cynllun eisoes wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth, er enghraifft mewn Cymraeg a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn profiadau dysgu.

Mae ethos agored yn sicrhau ymrwymiad cryf y rhieni i nodau a gwerthoedd yr ysgol. Mae'r cyllid sylweddol sy'n cael ei gyfrannu gan y gymdeithas rhieni ac athrawon yn darparu adnoddau ychwanegol ac yn sicrhau arian ar gyfer ymweliadau.

Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn ehangu a chyfoethogi profiadau dysgu. Mae'r ysgol yn hybu cysylltiadau cadarn gydag asiantaethau, cymdeithasau a busnesau lleol er budd addysg y disgyblion. Mae'r cydweithio agos gyda siop leol i werthu cynnyrch 'Sebon Slic' yr ysgol yn cefnogi datblygiad medrau busnes y disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf wedi cael eu meithrin gyda grŵp cyn-ysgol i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n effeithiol i'r dosbarth meithrin. Mae perthynas gadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion. Mae'r cydweithio agos hwn ynghyd â chysylltiadau cryf gyda'r clwstwr o ysgolion lleol wedi cyfrannu'n dda at rannu profiadau a chynllunio wrth ymateb i newidiadau diweddaraf. Llwyddwyd i rannu adnoddau yn effeithiol trwy drefnu hyfforddiant a chyfarfodydd ar y cyd.

Mae gan yr ysgol ymrwymiad cadarn i gydweithio'n agos â'i chlwstwr o ysgolion i safoni a chymedroli gwaith disgyblion, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth yr athrawon o'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol trylwyr ac mae'r gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd yn hyrwyddo cynnydd cadarn yn natblygiad disgyblion anghenus.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, gan weithio ar y cyd. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda i athrawon trwy gydweithio parhaus a pharodrwydd i ddatblygu'n broffesiynol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau gwaith a phrofiadau disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen gynhwysfawr o hyfforddiant.

Mae effaith adnoddau dysgu yn cael ei harfarnu'n ofalus i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu medrau. Mae defnydd effeithiol o'r ardal tu allan yn hybu profiadau dysgu ac yn ysgogi disgyblion Y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r ysgol yn datblygu’n gymuned dysgu proffesiynol effeithiol gyda nifer o rwydweithiau dysgu sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar wella medrau iaith disgyblion a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ystyried deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692386 - Ysgol Carreg Hirfaen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 102 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 19 | 9 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 78.9 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 84.2 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 10.5 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 94.7 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 2 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 15.8 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 19 | 9 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 94.7 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 26.3 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692386 - Ysgol Carreg Hirfaen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 102 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 6.1 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 15 | 12 | 15 | 18 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 93.3 | 91.7 | 80.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 91.7 | 80.0 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 66.7 | 46.7 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 91.7 | 73.3 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 41.7 | 20.0 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 100.0 | 86.7 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 53.3 | 66.7 | 46.7 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 12 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 66.7 | 91.7 | 46.7 | 77.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

ae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 42 | 41<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 42 | 42<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 42 | 42<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 42 | 42<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 42 | 42<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 42 | 42<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 42 | 42<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 42 | 42<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 42 | 42<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 42 | 42<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 42 | 41<br>98%<br>77% | 1<br>2%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 42 | 41<br>98%<br>84% | 1<br>2%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 38 | 27 | 8 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 71% | 21% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 38 | 32 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 38 | 33 | 5 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 87% | 13% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 38 | 27 | 8 | 3 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 71% | 21% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 38 | 24 | 10 | 3 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 63% | 26% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 37 | 27 | 7 | 3 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 73% | 19% | 8% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 38 | 23 | 12 | 3 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 61% | 32% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 37 | 22 | 10 | 2 | 3 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 59% | 27% | 5% | 8% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 37 | 20 | 12 | 1 | 3 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 54% | 32% | 3% | 8% | | |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 38 | 24 | 14 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 38 | 20 | 17 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 45% | 3% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 19 | 11 | 4 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 32% | 12% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 38 | 22 | 15 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 58% | 39% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 38 | 28 | 6 | 1 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 74% | 16% | 3% | 8% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 38 | 18 | 10 | 5 | 3 | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 47% | 26% | 13% | 8% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 38 | 21 | 14 | 3 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 37% | 8% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 25 | 11 | 7 | 3 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 44% | 28% | 12% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 36 | 24 | 8 | 3 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 67% | 22% | 8% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 37 | 19 | 14 | 4 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 51% | 38% | 11% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Robert Williams | Arolygydd Tîm |
| Jeffrey Davies | Arolygydd Lleyg |
| Aled Jones Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.